# Canllaw Chwythu'r Chwiban Casnewydd Fyw

Mae hi'n gyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Fel sefydliad, rydym yn ymrwymo i annog a chynnal diwylliant lle gall pobl fynegi pryder diogelu gwirioneddol a gwneud hynny'n hyderus gan wybod y bydd yr honiad yn cael ei gymryd o ddifri. Weithiau, gelwir hyn yn chwythu'r chwiban.

Yng nghyd-destun diogelu, "chwythu'r chwiban" yw pan fo rhywun yn mynegi pryder ynghylch lles plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg.

Gall person sy'n chwythu'r chwiban fod yn:

- gystadleuwr/chwaraewr;
- cwsmer
- gwirfoddolwr;
- hyfforddwr;
- aelod arall o staff;
- swyddog;
- rhiant;
- aelod o'r cyhoedd.

**Sut mae mynegi pryder ynghylch plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg**

Boed yn aelod o staff neu'n aelod o'r cyhoedd, dylid dilyn y gweithdrefnau canlynol.

Os ydych chi'n pryderu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl a'u bod mewn perygl uniongyrchol neu mewn perygl o gael eu niweidio, dylech ffonio'r heddlu - 101/999.

Bydd y Swyddog Diogelu neu'r swyddog dynodedig yn trosglwyddo'r manylion i Dîm Dyletswydd ac Asesu Cyngor Casnewydd ac yn cysylltu â'r heddlu, os yw'n briodol. Os mai mewn clwb y digwyddodd yr achos, efallai y byddai'n briodol i'r Swyddog Diogelu hysbysu Tîm Diogelu'r Corff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol.

Fodd bynnag, os nad yw chwythwr y chwiban yn teimlo'n gyfforddus yn mynegi'r pryder gyda Casnewydd Fyw, dylai chwythwr y chwiban ffonio neu gysylltu ag un o'r canlynol:

- Tîm Dyletswydd ac Asesu Cyngor Dinas Casnewydd, Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01633 656656 (Y tu allan i oriau swyddfa 0800 328 4432).
- NSPCC - 0808 800 5000.
- Tîm Diogelu'r Corff Llywodraethu (bydd y manylion cyswllt ar gael ar wefan y corff perthnasol).

**Gwybodaeth i'w chynnwys wrth fynegi pryder**

Dylai chwythwr y chwiban gynnwys cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ynghylch y digwyddiad neu'r amgylchiad sydd wedi peri'r pryder, gan gynnwys:

- enw a manylion cyswllt (oni bai eu bod yn dymuno bod yn anhysbys);

- enwau’r unigolion y mae’r achos yn ymwneud ag ef;
- dyddiad, amser a lleoliad y digwyddiad/amgylchiad; a
- nodi a oedd tystion yn bresennol.

**Beth yw’r cam nesaf?**

Bydd unrhyw bryder a fynegir gan chwythwr chwiban ynghylch llesiant plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl yn cael eu cymryd yn ddifrifol iawn a gwneir pob ymdrech i ymdrin â phob pryder yn deg, yn gyflym ac yn gymesur.

Os yw’r sawl a chwythodd y chwiban yn credu nad yw'r pryder a fynegodd wedi cael sylw digonol a dymuna drafod y mater â rhywun y tu allan i’r sefydliad, dylai gysylltu â llinell gymorth Chwythu’r Chwiban yr NSPCC - 0800 028 0285 neu e-bostio **help@nspcc.org.uk**.

**Cymorth a Disgyblaeth**

Bydd Casnewydd Fyw yn sicrhau bod dulliau priodol yn cael eu defnyddio i gefnogi’r person sy’n datgelu’r wybodaeth. Bydd y cymorth hwn a’r cyswllt yn cael ei adolygu pan fo’n briodol.

Os darganfyddir bod aelod o staff sy’n mynegi pryder yn dioddef aflonyddu neu erledigaeth, dylid ystyried hyn yn drosedd disgyblu a dylid defnyddio canllawiau Polisi Disgyblu Casnewydd Fwy i archwilio’r achos.